

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 24 Mawrth 2022

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD CYHOEDDUS**

**Teitl:** Fframwaith Profi Cleifion – Canllaw wedi diweddarau

**Dyddiad yr Adolygiad: Mehefin 2022**

**I'w weithredu gan:**

Pob bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaethau'r  
GIG

**Angen gweithredu erbyn:**

Ar unwaith

**Anfonwr:** Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr  
Meddygol, GIG Cymru

**Enw(au) Cyswilt GIGC Llywodraeth Cymru :**

Adran Profi, Orlhain a Diogelu, Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
Llywodraeth Cymru [Covid19.HealthTesting@llyw.cymru](mailto:Covid19.HealthTesting@llyw.cymru)

**Dogfennau amgaaedig: 1**

Annwyl Gydweithiwr,

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Fframwaith ar gyfer profion COVID-19 i gleifion yn yr ysbyty yng Nghymru'. Rydym wedi adolygu'r trefniadau hyn yn sgil y rhaglen frechu eang, cynllun pontio COVID-19 hirdymor Cymru o bandemig i endemig a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth, a chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### **Y Cyd-destun Presennol:**

Ceir tystiolaeth bod brechu yn effeithiol iawn o ran lleihau'r risg o salwch symptomatig, clefydau difrifol, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau. Ochr yn ochr â'r brechlynnau, mae triniaethau gwrthfeirrol newydd ar gael sy'n gallu helpu i leihau difrifoldeb clefydau, yn enwedig i'r rheini sy'n fwyaf tebygol o fod mewn perygl o wynebu canlyniadau niweidiol. Gwelsom effaith gymharol fach ar dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau yn ystod nifer uchel yr achosion cymunedol o SARS-CoV-2 ar frig y don Omicron. Yn ogystal, gostyngodd nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â throsglwyddiad nosocomiaidd yn sylweddol yn ystod y don Omicron.

Mae hyn yn golygu bod y perygl o lethu'r GIG yn llai ar gyfer unrhyw lefel o heintiau cymunedol. Mae'n bosibl bod y niweidiau uniongyrchol yn sgil COVID-19 yn cael eu gorbwyso gan y niweidiau anuniongyrchol, ac yn benodol gan yr effeithiau negyddol sy'n deillio o'r mesurau i leihau trosglwyddiad.

### **Diweddariad i'r Fframwaith:**

Yn y cyd-destun presennol hwn, mae'r diweddariad hwn i'r canllawiau yn Atodiad 1 yn seiliedig ar yr angen i gyflwyno newidiadau cymesur ac effeithiol sy'n cydbwysu'r peryglon o SARS-CoV-2 yn erbyn yr angen i sicrhau gofal iechyd rheolaidd a gofal iechyd brys yn ddiogel a'r effaith y mae'r trefniadau profi yn ei chael ar gleifion. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau, y dystiolaeth iechyd cyhoeddus orau a'r dystiolaeth arbenigol orau sydd ar gael inni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd caniatáu i benderfyniadau lleol gael eu gwneud ynghylch pryd neu ble y gallai fod angen cynyddu neu leihau'r gwaith o brofi. Byddai hyn yn ddibynnol ar gyfraddau trosglwyddiad nosocomiaidd, cyfraddau trosglwyddiad yn y gymuned, neu'n ddibynnol ar ba mor agored y mae cleifion i niwed.

Yr eiddoch yn gywir,

Yr Athro Chris Jones  
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru

## Fframwaith Profi Cleifion

### **Profi cleifion cyn iddynt fynd i'r ysbyty am driniaethau dewisol**

Mae profi cleifion cyn iddynt fynd i'r ysbyty yn parhau, ond mae'r math o brawf a gynghorir yn seiliedig ar risg unigol y claf o gael ei heintio.

- Dylai cleifion asymptomatig sy'n cael triniaethau llawfeddygol neu gemotherapi gael asesiad risg unigol ac amlddisgyblaethol a ddylai gynnwys ystyried y manteision o wybod statws haint COVID-19 y claf, ac a oes angen cynnal profion cyn y llawdriniaeth. Os felly, dylid profi'r claf gan ddefnyddio prawf NAAT (prawf mwyhau asid niwclëig megis prawf PCR neu Brawf Pwynt Gofal (POCT) sydd â sensitifrwydd a phenodoldeb uchel) 72 awr cyn iddo fynd i'r ysbyty, yn ogystal â hunanynysu hyd nes ei driniaeth.
- I rai cleifion sy'n risg isel, yn asymptomatig ac sy'n mynd i'r ysbyty ar gyfer triniaethau risg isel, gallai cael prawf llif unffordd negatif ar y diwrnod y mae'r claf yn mynd i'r ysbyty neu ychydig cyn hynny fod yn ddigonol. Mae defnyddio profion llif unffordd yn hwyluso darpariaeth gwasanaethau mwy ymatebol i rai cleifion yn seiliedig ar asesiad risg lleol.

### **Profi cleifion sy'n mynd i'r ysbyty heb drefniant**

- Dylid profi cleifion â symptomau anadlol gan ddefnyddio profion NAAT ar gyfer SARS-CoV2, y ffliw, feirws syncytiol anadlol (RSV) neu brawf amlddadansoddiad llawn fel yr argymhellir yn glinigol. Bydd penderfyniadau am brofion pellach yn cael eu gwneud yn unol â chyflwr clinigol y claf os yw'r canlyniad cychwynnol yn negyddol.
- Dylid defnyddio profion llif unffordd i brofi cleifion heb symptomau anadlol am SARS-CoV2 yn unig pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn unig. Dylid defnyddio NAAT cyflym priodol os nad oes prawf llif unffordd ar gael.

### **Profi cleifion wedi iddynt fynd i'r ysbyty**

#### **Profi Cleifion Asymptomatig**

Ni chynghorir unrhyw brofion asymptomatig rheolaidd pellach oni bai bod angen hynny ar sail penderfyniad lleol.

#### **Profi Cleifion Symptomatig**

- Dylid profi cleifion sy'n datblygu symptomau gan ddefnyddio profion NAAT ar gyfer SARS-CoV2, y ffliw, feirws syncytiol anadlol (RSV) neu brawf amlddadansoddiad llawn fel yr argymhellir yn glinigol.

### **Profi cleifion ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty i leoliadau caeedig**

Mae'r gofyniad profi ar gyfer rhyddhau claf i leoliad caeedig yn seiliedig ar wella symptomau yn ogystal â'r amser sydd wedi mynd heibio ers cael canlyniad prawf positif. Gellir ystyried y canllawiau profi hyn yn rhan o'r asesiad cyn rhyddhau claf o'r ysbyty. Ni ddylai gofynion profi atal y broses o ryddhau'r claf o'r ysbyty os yw'r asesiad yn cefnogi'r broses honno, a bod mesurau eraill yn cael eu hystyried yn briodol.

Rydym yn annog byrddau iechyd i gydweithio â darparwyr cartrefi gofal ar drefniadau profi pan fo cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

- Gellir ystyried bod cleifion sydd wedi cael prawf positif am COVID-19 ar yr adeg yr aethant i'r ysbyty, neu wedi hynny, bellach ddim yn heintus pan fo:
  - Symptomau wedi gwella, A BOD
  - 20 diwrnod wedi mynd heibio, NEU FOD
  - 10 diwrnod wedi mynd heibio gyda naill ai prawf llif unffordd negatif, neu brawf NAAT negatif neu bositif isel.
- Dylid profi cleifion asymptomatig nad ydynt wedi cael prawf blaenorol positif am COVID-19 o fewn 24 awr cyn gweithredu'r cynllun i'w rhyddhau o'r ysbyty i'r lleoliad gofal. Gellid defnyddio prawf cyflym priodol NAAT os nad oes profion llif unffordd ar gael.

	Symptomatig / Asymptomatig	Prawf	Pryd
<b>Profi cleifion cyn iddynt fynd i'r ysbyty</b>	Asymptomatig Cyn llawdriniaeth / cemotherapi	Prawf NAAT  Prawf llif unffordd	Prawf NAAT - 72 awr cyn i'r claf fynd i'r ysbyty a hunanynysu, neu ar gyfer cleifion a llwybrau risg isel, prawf llif unffordd pan fyddant yn mynd i'r ysbyty.
	Asymptomatig Triniaeth anfeddygol / cemotherapi	Prawf llif unffordd	Prawf llif unffordd ar y diwrnod y mae'r claf yn mynd i'r ysbyty.
<b>Profi cleifion sy'n mynd i'r ysbyty heb drefniant</b>	Symptomatig	Prawf NAAT*	Pan fo'r claf yn mynd i'r ysbyty. Os yn negatif, penderfyniad ynghylch profion pellach yn unol â chyflwr clinigol y claf.
	Asymptomatig	Prawf llif unffordd neu NAAT	Pan fo'r claf yn mynd i'r ysbyty.
<b>Profi cleifion mewnol wedi iddynt fynd i'r ysbyty</b>	Symptomatig	Prawf NAAT*	
	Asymptomatig	N/A	Dim profion asymptomatig rheolaidd pellach oni bai bod eu hangen ar sail penderfyniad lleol.
<b>Profi cleifion cyn eu</b>	Asymptomatig ond prawf	Posibilrwydd o brawf llif	Dylid ystyried nad yw'r claf bellach yn heintus pan fo:

<b>rhyddhau o'r ysbyty i leoliad caeedig</b>	COVID-19 positif ar ddiwrnod mynd i'r ysbyty neu ers hynny	unffordd neu NAAT	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Symptomau wedi gwella, A BOD</li> <li>• 20 diwrnod wedi mynd heibio, NEU FOD</li> <li>• 10 diwrnod wedi mynd heibio gyda naill ai prawf llif unffordd negatif, neu brawf NAAT negaitf neu bositif isel.</li> </ul>
	Asymptomatig a ni cheir prawf COVID-19 positif yn ystod yr arhosiad yn yr ysbyty	Prawf llif unffordd neu NAAT	O fewn 24 awr cyn gweithredu'r cynllun i ryddhau'r claf i leoliad gofal.

\* Profion NAAT ar gyfer SARS-CoV2, y Fflw, feirws syncytiol anadlol (RSV) (neu brawf amlddadansoddiad llawn fel yr argymhellir yn glinigol).